



Cynllun Iaith Gymraeg

Cartrefi Cymoedd Merthyr

Paratowyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn
o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf)
a'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u
Cofrestru yng Nghymru, Rhagfyr 2011

Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth
Comisiynydd y Gymraeg
o dan Adran 14(1) y Ddeddf ar 22.04.14

1. Nod y Cynllun

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ymgymryd â'i fusnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Amcanion

- a) Galluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sydd mewn trafodaeth gyda Chartrefi Cymoedd Merthyr i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â dewis personol yr unigolyn.
- b) Sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn wasanaethau o ansawdd uchel.
- c) Hyrwyddo defnydd ar yr iaith Gymraeg yn y gymuned.
- d) Annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg.
- e) Hyrwyddo a hwyluso defnydd ar yr iaith Gymraeg yn y gweithle.

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn yr iaith o'u dewis. Cydnabyddir hefyd bod galluogi i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn fater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn, a byddai gwadu'r hawl iddynt ddefnyddio'u hiaith ddewisol yn eu gosod dan anfantais. Gan hynny bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cynnig hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â nhw, yn unol â'r egwyddor uchod.

2. Cyflwyniad

Cefndir

Sefydlwyd Cartrefi Cymoedd Merthyr ym mis Mawrth 2009 pan bleidleisiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i drosglwyddo perchnogaeth a rheolaeth ar eu cartrefi i Gymdeithas Dai trosglwyddiad newydd. Cartrefi Cymoedd Merthyr yw'r prif ddarparwr gwasanaethau tai ym Merthyr Tudful.

Rydym yn berchen ar, ac yn rheoli, dros 4,200 eiddo yn ardal Merthyr Tudful, ac rydym yn ymrwymedig i greu cartrefi a chymunedau gwell i'n tenantiaid. Trwy wrando ar ein tenantiaid, rydym yn sicrhau bod y cartrefi a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn bodloni anghenion lleol.

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965. Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr wedi'i gofrestru gyda, a'i reoleiddio gan, Lywodraeth Cymru, ac mae'n aelod o Gartrefi Cymunedol Cymru.

Gweledigaeth a Gwerthoedd

Mae ein 'gweledigaeth a gwerthoedd' yn ymwneud â'r hyn sy'n sail i Gartrefi Cymoedd Merthyr:

'Byw gyda ni'

Creu gwasanaeth tai sy'n wych
Gosod tenantiaid wrth galon ein sefydliad
Creu cymuned decach

'Gweithio gyda ni'

Gweithlu balch a chynhyrchiol
Gweithio gyda mentrau cymdeithasol
Cefnogi democratiaeth leol

'Gwella gyda ni'

Creu cartrefi o ansawdd
Gwella ein cymdogaethau
Gwella anghydraddoldeb economaidd

Strwythur ac Ardal Weithredu

Llywodraethir Cartrefi Cymoedd Merthyr gan Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys deuddeg aelod - pedwar aelod tenant, pedwar aelod Awdurdod Lleol a phedwar aelod annibynnol.

Mae tîm rheoli gweithredol Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cynnwys Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Cyfarwyddwr Tai a Chyfarwyddwr Rheoli Asedau.

Mae Prif Swyddfa Cartrefi Cymoedd Merthyr yn Martin Evans House, yng nghanol tref Merthyr Tudful. Mae gan Gartrefi Cymoedd Merthyr tua 185 o staff llawn amser a rhan amser. Mae tua 90 o staff wedi'u lleoli yn ein Prif Swyddfa; mae'r gweddill yn staff maes wedi'u lleoli yn ein Cynlluniau Lloches neu o fewn y Tîm Gwasanaethau Eiddo.

Defnyddwyr Gwasanaeth

Ein prif ddefnyddwyr gwasanaeth yw tenantiaid, lesddeiliaid a'r rheini sy'n chwilio am gartref.

Yr Iaith Gymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 5,028 (neu 8.9%) o bobl 3 oed neu'n hŷn ym Mwrdeistref Merthyr Tudful yn gallu siarad Cymraeg. O blith yr holl bobl 3 oed a hŷn ym Mwrdeistref Sirol Merthyr, mae 3,706 (neu 6.5%) yn siarad, yn darllen neu'n ysgrifennu Cymraeg.

Ar hyn o bryd gwyddys bod y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal yn weddol fach o ran nifer. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gallai unigolion ofyn i gael defnyddio'r Gymraeg os mai dyna yw eu hoff iaith. Mewn perthynas â defnyddwyr posibl ar ein gwasanaethau yn y dyfodol, rydym eisiau sicrhau bod ganddynt

fynediad cyfartal beth bynnag yw eu dewis iaith, felly byddwn yn cynnig ein dogfennau yn ddwyieithog. Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyfoethogi'r iaith Gymraeg trwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i'n haelodau staff.

Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu, a phe bai'r amgylchiadau yn newid, byddwn yn sicrhau bod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei adolygu i adlewyrchu newidiadau fel y bo'n briodol, a bod adnoddau ar gael i adlewyrchu amgylchiadau o'r fath.

Y pwynt cyswllt ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg yw'r Prif Weithredwr, a'r manylion cyswllt yw:

Cartrefi Cymoedd Merthyr
Tŷ Martin Evans
Cwrt Glan yr Afon
Avenue de Clichy
Merthyr Tudful
CF47 8LD

Ffôn: 01685 727772

3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau

Polisiâu a Mentrau

Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiâu, bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd yn sicrhau bod y mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu pan fydd polisiâu a mentrau newydd yn cael eu gweithredu.

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg o flaen llaw yn ymwneud ag unrhyw gynnig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Ni fydd y Cynllun hwn yn cael ei ddiwygio heb gytundeb blaenorol Comisiynydd y Gymraeg.

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn sicrhau bod pwy bynnag sy'n gysylltiedig â ffurfio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau Cartrefi Cymoedd Merthyr o dan y Côt Rheoleiddio a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Darpariaeth Gwasanaeth

Hyd y gellir yn ymarferol ac yn briodol rhesymol o dan yr amgylchiadau, bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn sicrhau trwy wybodaeth a chyfeirio clir bod y rheini sy'n ymwneud â ni yn ymwybodol o sut y gallwn gyfathrebu gyda'n gilydd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ôl yr angen.

Byddwn yn ymdrechu i ddarganfod dewis iaith y rheini sy'n ymwneud â ni, a byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod gennym ddigon o aelodau o staff sy'n hyderus ac yn gymwys i gynnig cymorth yn Gymraeg. Er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd

uchel, byddwn yn ategu at sgiliau iaith ein staff gyda gwasanaethau cyfieithu proffesiynol, a bydd y gwasanaethau hynny ar gael yn rhwydd er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen wrth ddarparu gwasanaeth.

Gwasanaethau a Ddarperir i'r Cyhoedd gan Sefydliadau Eraill

Swyddogaethau Rheoleiddio a Gwasanaethau Trydydd Parti

Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn gyson gydag adrannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

Partneriaethau

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn gweithredu ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill. Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun wrth weithredu mewn partneriaeth.

Safonau Ansawdd

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran eu hansawdd a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

4. Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Gohebiaeth

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ymdrinnir â'r holl ohebiaeth yn brydlon ac ni ddylai gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei hun arwain at oedi. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).

Bydd yr holl ohebiaeth yn dilyn sgwrs ffôn neu sgwrs wyneb-yn-wyneb yn Gymraeg neu gyfarfod ble darganfuwyd mai'r Gymraeg yw'r iaith y mae'r unigolyn yn ei ffafrio, hefyd yn Gymraeg.

Byddwn yn cadw cofnod o'r unigolion hynny sy'n dymuno delio â Chartrefi Cymoedd Merthyr yn Gymraeg.

Cyfathrebu dros y Ffôn

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a'n harfer safonol yw sicrhau bod y cyhoedd yn gallu siarad yn y Gymraeg neu'n Saesneg wrth gysylltu â ni ar y ffôn.

Er mwyn cyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, byddwn yn cymryd y camau a ganlyn er mwyn galluogi siaradwyr Cymraeg i ymwneud â Chartrefi Cymoedd Merthyr yn Gymraeg dros y ffôn:

- Darparu cyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt;

- Rhoi canllawiau i staff ar sut i ddelio gyda galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau.

Cyfarfodydd Cyhoeddus Cyffredinol

Pan fydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau tebyg eraill, bydd croeso i'r rheini sy'n bresennol gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Os yw'n hysbys y bydd siaradwyr Cymraeg yn bresennol, bydd cyfleusterau cyfieithu yn cael eu trefnu.

Cyfarfodydd Eraill

Croesawa Cartrefi Cymoedd Merthyr gyfarfodydd â'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ond oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu cyfarfod wyneb-yn-wyneb yn Gymraeg. O dan amgylchiadau o'r fath byddwn yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais ac yn cynnig opsiynau eraill, megis trefnu cyfieithu neu fwrw ymlaen â'r cyfarfod yn Saesneg.

Cyfathrebu â'r Cyhoedd mewn Ffyrdd Eraill

Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o fodloni anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha bynnag ffordd y byddwn yn delio â'r cyhoedd.

5. Wyneb Cyhoeddus y Gymdeithas

Hunaniaeth Gorfforaethol ac Arwyddion

Ymgymera Cartrefi Cymoedd Merthyr i fabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth ddwyieithog yn ystod oes y cynllun hwn.

Pan fydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn adnewyddu neu'n ail-godi unrhyw arwyddion byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn ddwyieithog. Bydd arwyddion sy'n cael eu codi am y tro cyntaf yn ddwyieithog. Bydd maint, safon yr eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parchu egwyddor cydraddoldeb iaith.

Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau (gan gynnwys ffurflenni a deunydd eglurhaol)

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cynhyrchu ein dogfennau strategol allweddol neu'r rheini sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol yn y ddwy iaith, gan roi dewis i bobl o ba fersiwn iaith y maen nhw ei eisiau.

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn sicrhau bod staff a'r rheini sydd â chyfrifoldeb dros argraffu yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau cyhoeddi.

Datganiadau i'r Wasg, Hysbysiadau a Hysbysebion

Bydd ein datganiadau i'r wasg a hysbysiadau yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog pan fydd yn rhesymol ymarferol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog ar gyfer swyddi ble y mae angen sgiliau iaith Gymraeg.

Gwefan

Mae ein gwefan yn rhannol ddwyieithog ar hyn o bryd. Ble fydd yn priodol a rhesymol, bydd dogfennau allweddol ar gael yn ddwyieithog a byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i hyn ar ein gwefan.

6. Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun hwn

Staffio

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn gwneud trefniadau i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, bod gan weithleoedd sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd fynediad at staff gyda sgiliau iaith Gymraeg priodol er mwyn galluogi i'r gweithleoedd hynny ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r graddau y bydd hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio, gan ddibynnu ar y gwasanaeth ac ar yr ardal.

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cynnal archwiliad i ganfod nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg, gan gynnwys adolygiad o'u gallu a'u lleoliad. Byddwn yn ymateb i ddiffyg sgiliau trwy recriwtio a/neu hyfforddi. Byddwn hefyd yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff o ran gofynion y Cynllun iaith Gymraeg, a bydd yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth yn ystod y broses ymsefydlu ar gyfer staff newydd.

Recriwtio

Pan fydd hi'n ddymunol neu'n hanfodol i ymgeisydd feddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg, bydd hyn yn cael ei nodi'n glir yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi'r lefel gymhwyster sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd, er enghraifft "angen bod yn siaradwr Cymraeg rhugl".

Hyfforddiant iaith Gymraeg

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cefnogi'r Cynllun iaith hwn trwy annog a chefnogi aelodau staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau yn Gymraeg.

Trefniadau Gweinyddol

Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth llawn Cartrefi Cymoedd Merthyr. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r

Cynllun laith ac mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i wybod sut i weithredu'r Cynllun yn effeithiol.

Adolygu Gweithrediad y Cynllun

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb dros fonitro ac adolygu'r Cynllun hwn:

Mr Michael Owen
Prif Weithredwr

Cartrefi Cymoedd Merthyr
Tŷ Martin Evans
Cwrt Glan yr Afon
Avenue de Clichy
Merthyr Tudful
CF47 8LD

Ffôn: 01685 727772
E-bost: michael.owen@mvhomes.org.uk

Byddwn yn defnyddio gweithdrefn canmol a chwyno safonol y sefydliad i gofnodi a delio ag adborth am y Cynllun hwn a byddwn yn sicrhau bod modd monitro cwynion penodol ynglŷn â'r Cynllun.

Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd wrth y Bwrdd Rheoli yn flynyddol, a bydd yn anfon copi o'r adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat y cytunwyd arno, a bydd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau gwella a dderbyniwyd gan y cyhoedd yng nghyswllt y Cynllun.

Cyhoeddi Gwybodaeth

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn cynnwys datganiad ar ein gwefan yn nodi ble y gall aelodau'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

Cyhoeddusrwydd

Bydd Cartrefi Cymoedd Merthyr yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n delio â ni yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut y gallant gynnal eu gwaith yn y Gymraeg.

Bydd ein dulliau o gyhoeddi'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, a bydd yn cynnwys sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyhoeddi mewn lleoliad amlwg ar ein gwefan.

Gweithredu'r Cynllun Gweithredu a Graddfeydd Amser

Camau	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cwblhau
Cynyddu ddarpariaeth yr iaith Gymraeg yn ystod cyfnod y cynllun	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	Parhaus
Angen ystyried yr angen am sgiliau iaith Gymraeg wrth ystyried aelodau'r Bwrdd.	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	Parhaus
Adolygu darpariaeth gwasanaethau cyfieithu	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	Rhagfyr 2013 ac yna adolygiad blynyddol
Cynnal archwiliad sgiliau iaith Gymraeg - cynnal cyfeiriadur cywir yn fewnol a'i hadolygu yn flynyddol.	Rheolwr Adnoddau Dynol	Mawrth 2014 ac yna adolygiad blynyddol
Casglu a choladu dewisiadau iaith Gymraeg y defnyddwyr gwasanaeth - cynnal cofnodion cywir a'u defnyddio i hysbysu'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau	Cyfarwyddwr Tai	Parhaus
Adnabod a chyfieithu cyfathrebiadau ysgrifenedig safonol pan fydd angen eu hadolygu a'u hadnewyddu, neu os ydynt yn cael eu hadnabod fel angen unigol e.e. llythyron	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	Mawrth 2014
Cynnwys dogfennau corfforaethol allweddol wedi'u cyfieithu ar y wefan gyhoeddus.	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	Mawrth 2014
Llunio cyfarchiad dwyieithog safonol ar gyfer yr holl rifau ffôn sy'n cael eu hysbysebu	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	Mawrth 2014
Sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar gael mewn cyfarfodydd cyhoeddus os oes blaenoriaeth yn cael ei cheisio	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau	Parhaus

	Corfforaethol	
Hunaniaeth gorfforaethol i gael ei hadolygu - arwyddion, swydd wisgoedd, papur pennawd, slipiau cyfarch, fformat e-bost, gwefan ayyb. Dylid cynnwys datganiad bod gohebiaeth yn cael ei chroesawu yn y Gymraeg a'r Saesneg	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	Mawrth 2014
Adolygu gofyniad ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg wrth i swyddi gweigion newydd godi	Rheolwr Adnoddau Dynol	Parhaus
Cyhoeddi'r Cynllun i staff cyfredol.	Rheolwr Adnoddau Dynol	Rhagfyr 2013
Cynnwys trosolwg o'r Cynllun yn y rhaglen ymsefydlu ar gyfer staff newydd	Rheolwr Adnoddau Dynol	Rhagfyr 2013
Sefydlu rhaglen hyfforddi iaith Gymraeg ar gyfer staff a hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff	Rheolwr Adnoddau Dynol	Parhaus
Cyhoeddi'r Cynllun iaith Gymraeg yn fewnol trwy sianelu cyfathrebu corfforaethol	Ysgrifennydd Cwmni & Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol	Mawrth 2014
Sicrhau bod yr holl staff yn deall yr angen i hysbysu partneriaid o'n gofynion Cynllun iaith Gymraeg	Prif Weithredwr	Rhagfyr 2013
Sicrhau bod yr holl gontractwyr yn ymwybodol o ofynion ein Cynllun iaith Gymraeg ac yn eu gwireddu	Cyfarwyddwr Rheoli Asedau	Mawrth 2014
Sicrhau bod yr holl sefydliadau perthynas trydydd parti yn ymwybodol o'n Cynllun iaith Gymraeg	Cyfarwyddwr Tai	Mawrth 2014
Darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a Chomisiynydd y Gymraeg ar gynnydd y Cynllun iaith Gymraeg	Prif Weithredwr	Yn flynyddol